Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 13. Rhif 3.] MAWRTH, 1913. [Pris 2c.

CYNNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd. Oddiar y Twr.
Ymson y Myfyriwr.
Penillion er cof am y Diweddar David Morgan, Morlfre. Cledlyn.
Ymweliad a Canada a'r Unol Dalaethau. Parch. E. Ceredig Jones.
"Mewn Undeb mae Nerth." Mr. Daniel Jones, Mydroilyn.
Dygwyddiadau Nodedig.
Adnodau'r "Gair."
Gwroniaid y Mannau Cudd. T. E. Nicholas.
Y Tegell a'r Tebot.
"Yr Ymofynydd." Priodas.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

NOW READY and may be obtained of

J. D. LEWIS, "YR YMOFYNYDD" OFFICE, LLANDYSSUL.

—:o:—

"An Interpretation of Rudolph Eucken's Philosophy."

By the Rev. W. TUDOR JONES, PH.D.

Price 5s. nett.

This Book deals with Prof. Eucken's philosophy in a far more extensive manner than has hitherto been attempted in England.

OS AM SICRHAU COPI O

"CRWTH DYFFRYN CLETTWR"

Anfoner yn ddioed am dano at J. D. LEWIS, Swyddfa "Yr Ymofynydd," Llandyssul, yr hwn sydd wedi prynu yr oll oedd gan y Cyhoeddwr. Prisiau—Paper Covers, 1/6; Cloth, 2/6; Half Bound, 3/-. Postage, 2d.

TALIADAU.

E.J., Drefach; J.T., Liverpool; J.R., Pontbrenllwyd; Dr.J.D.J., Ystrad; J.B., Llanelli; J.R.E., Ammanford; T.D., Montreal, Canada.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

—— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. ——

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

" Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD. MAWRTH, 1913. [CYF. XIII. RHIF 3.

AR EDYN FFYDD.

Y LLONGAU BUAIN.

Tôn—Melita.

Fel llongau buain yr y'm ni
Yn hwylio'n gyflym dros y lli',
Ac fel yr awn o don i don
Drwy holl brofiadau'r fordaith hon,
Cawn weled fod y llong a'r llyw,
Dan reol doeth ragluniaeth Duw.

Cymylau gofid ar bob tu
Dywyllant sêr ein gobaith ni,
A llawer ton o alar sydd
Yn curo ar yr enaid prudd,
Ond herio wnawn bob storom gref
Dan ddwyfol nawdd ein Tad o'r Nef.

Byr yw ein hoes—nid yw yn mhell
I wyrddion lanau'r wlad sydd well;
Yn fynych pan ar frig y don
Cawn adsain fwyn o'i miwsig llon,
A'i hyfryd beraroglau hi
Ddont i'n hadloni ar y lli'.

Ai llyfn ai garw fyddo'r mor,
Rhown hyder yn ein cadarn Ior;
Ei hael drugaredd dyfnach yw
Na holl anghenion dynol ryw;
Ryw ddydd, drwy nerth ei gariad Ef,
Cawn gyrhaedd hafan hardd y Nef.

E. CEREDIG JONES.

ODDIAR Y TWR.

A YDYM ni ar bwys yr adeg pan y bydd crefyddau'r byd wedi dysgu gwerthfawrogi a pharchu eu gilydd, ac ystyried eu gilydd fel adlewyrchiadau o'r gwirionedd perffaith? Tueddir fi weithiau i gredu ein bod, os nad ar bwys yr adeg hyfryd hon, eto yn cyflym nesu ati. Y mae'r croesaw calonog a estynwyd i

ABDUL BAHA

yn ystod ei ymweliad diweddar a'r wlad hon a'r Amerig wedi'm cadarnhau yn y gred hon. Tebyg fod yr enw uchod yn ddieithr i'r rhan fwyaf o'n darllenwyr, ac i'r cyfryw y mae crynodeb o'r prif ffeithiau yn ei fywyd yn ddyledus. Daeth y mudiad crefyddol â'r hwn y cysylltir ei enw i fodolaeth tua'r flwyddyn 1844 yn Persia, a'i gychwynydd oedd uno'r enw Bab. Dywedir fod ei genadwri yn dal yn agos yr un fath berthynas â Mahometaniaeth ag addeil y Dduwinyddiaeth Newydd yn ein gwlad ni â Christionogaeth Iawnffyddol. Bu am tua dwy flynedd yn taenu ei genadwri, gyda'r fath argoelion am lwyddiant, fel y cyffrowyd yr awdurdodau Mahometanaidd i gymeryd mesurau i'w ddystewi. Taflwyd ef i garchar, lle y bu yn dihoeni am tua phedair blynedd, ac yn 1850 saethwyd ef i farwolaeth.

TRWY WAED EI FERTHYRON

y sicrheir llwyddiant effeithiolaf pob mudiad. Gadawodd Bab ar ei ol nifer luosog o ddysgyblion, y rhai ar ol marwolaeth ei blaenor, a ymdaflasant i'r frwydr i sicrhau llwyddiant ei achos. Cyn ei farw, hefyd, dywedodd wrthynt, fel y dywedodd Ioan Fedyddiwr gynt, fod un mwy nag ef i ddod ar ei ol, yr hwn, trwy gyfrwng ei genadwri, a adgenhedlai Bersia, ac a baratoai'r ffordd ar gyfer uniad ysprydol dynolryw. Bu raid i'w ddilynwyr oddef erledigaeth greulawn am flynyddau lawer. Yn mhen amser, cododd iddynt arweinydd arall or enw

BAHA 'U' LLAH,

dyn ieuanc o safle gymdeithasol urddasol, yr hwn a roddodd y cwbl i fyny er mwyn yr achos. Nid hir fu yntau cyn cael ei hun yn ngharchar yn Nheheran, prif ddinas Persia. Rhyddhawyd ef o garchar yn fuan, ac alltudiwyd ef a'i deulu a nifer o'i ganlynwyr i Bagdad, lle y bu am ddeuddeng mlynedd. Treuliodd y ddwy flynedd olaf o'r deuddeg hyn mewn unigedd yn mhlith y mynyddau yn gweddio, ac yn 1863 cyhoeddodd ei hun fel yr un oedd Bab wedi rhagddyweyd am dano. Ar ol hyn symudwyd ef o fan i fan yn y gobaith y llwyddid felly i ddiffodd ei ddylanwad, a gosod terfyn ar y mudiad. Bu farw yn Acca (neu Acre), heb fod yn mhell o Nazareth,

yn 1892, ar ol bywyd o erledigaeth greulawn. Cyn ei farwolaeth, enwodd fel ei olynydd un o'r enw

ABBAS EFFENDI,

neu'r Abdul Baha y soniwyd am dano eisoes. Bu'r olaf mewn caethiwed yn Acca hyd 1908, pryd y rhyddhawyd ef gan yr awdurdodau Tyrcaidd. Ar ol hyn ymneilldnodd i gymydogaeth mynydd Carmel, ac o hyny allan ymroddodd i daenu'r genadwri newydd. Gellir gyda phriodoldeb ddesgrifio ei safle mewn perthynas i'r mudiad Bahaidd fel un cyffelyb i eiddo Paul yn ei berthynas a Christionogaeth. Dyna'r ffeithiau yn fyr. A dylwn ddyweyd cyn myned yn mhellach, fy mod yn ddyledus am danynt i'r *Christian Commonwealth.* Beth yw

NODWEDDAU BLAENAF YR ADDYSG NEWYDD?

Amcana, yn y lle blaenaf, at ddwyn oddiamgylch undeb ysprydol yr hil ddynol. Dywed fod yr holl grefyddau yn hanfodol yn un, a'u bod oll wedi tarddu o'r un ffynonhell ddwyfol. Ei hamcan, felly yw, nid dwyn i fodolaeth grefydd newydd neu sect newydd, ond yn hytrach uno'r holl grefyddau a'u gilydd,—nid eu huno dan rhyw un enw mwy nag enw arall, ond eu huno yn ysprydol. Nid yw am i'r Cristion i beidio bod yn Gristion ; nac am i'r Mahometan i beidio bod yn Fahometan ; nac am i'r Bwddhiaid i beidio bod yn Fwddhiaid ; ac yn y blaen. Nid yw pob un o'r crefyddau hyn ond amrywiol amlygiadau neu

YMGNAWDOLIADAU O'R UN GAIR

neu o'r un Crist. Yr hyn sydd eisiau yw, i bob crefydd i ymddihatru o'r hyn sydd amserol a diflanol, a chanolbwyntio ei sylw ar yr hyn sydd barhaol a dwyfol, ynddi hi ei hun ac mewn crefyddau ereill. Ond iddynt wneud hyn, cânt eu bod yn sylweddol yn un. Y mae y mudiad eisoes wedi cyflawnu pethau mawrion yn ngwledydd y dwyrain. Dywedir fod yn agos i haner poblogaeth Persia wedi ymrestru dan ei faner. Y mae, yn mhellach, wedi llwyddo i ddwyn Iuddewon, Cristionogion, Mahometaniaid, Bwddhiaid, a Hindwaid i well dealltwriaeth o'u gilydd ac i gydymdeimlad mwy trwyadl a safleoedd y naill a'r llall. Y mae ei ddylanwad, hefyd, wedi lledu dros gyfandiroedd Ewrop ac America, wedi enill llu o ddysgyblion, a sicrhau cydymdeimlad pawb a wir ddymunant undeb ysprydol y byd crefyddol. Y mae arweinydd presenol y mudiad, Abdul Baha, wedi bod yn ystod y flwyddyn ddiweddaf ar ymweliad a'r wlad hon a'r Amerig. Ac y mae wedi derbyn croesaw gwir wresog gan y gwahanol bleidiau crefyddol. Ar hyn o bryd (tua chanol Ionawr) y mae yn y wlad hon, ar fin dychwelyd i'w gartref. Efallai y ceir cyfle eto i ymhelaethu ar egwyddorion ac amcanion y mudiad, ond gobeithiaf fod yr uchod yn ddigon i roi i'r darllenydd ryw syniad am dano. Dim ond sylw pellach wnaf am dano, sef, nas gall

ARUCHELEDD AMCAN Y MUDIAD

lai nag apelio yn llwyddianus at gydymdeimlad pawb ond y rhai

ydynt wedi llwyr ymgolli mewn rhagfarnau pleidiol a sectol. Dyna, heb un amheuaeth, felldith y byd Cristionogol bron er dechreu'r cyf-i nôd—yr yspryd pleidiol sydd wedi ei nodweddu. Nid yn unig y mae'r byd Cristionogol wedi ymranu, ond y mae pob un o'r pleidiau hyn yn edrych ar eu gilydd yn gilwgus ac eiddigeddus. Nid dyweyd yn erbyn amrywiaeth barn yr wyf. Y mae amrywiaeth barnau yn anocheladwy. Eithr dyweyd yn erbyn yr yspryd sectol sydd mor gyffredin, dyna wnaf. Yr hyn sydd eisiau i'r byd crefyddol ei ddysgu yw—mai yr un yw amcan pob crefydd, fod y ffyrdd at yr amcan yn amrywio, ac fod pob crefydd yn arwain at yr amcan yn ei ffordd ei hun ac yn ol mesur ei goleuni ei hun. Y mae yn dechreu gwawrio ar feddyliau y mwyaf diwylliedig—ysprydol ddiwylliedig—o bob crefydd nad yw'r crefyddau i gyd ond

ADLEWYRCHIADAU O'R GOLEUNI PERFFAITH.

Y mae'r hil ddynol wedi bod erioed yn sefyll yn wyneb dirgelwch anolrheiniadwy, yn ymyl *Sphinx* a ofyna ei gofyniadau i bob un a êl heibio iddi. Y mae prophwydi a gweledyddion erioed wedi bod yn chwilio am y goleuni goreu fedrent hwy gael, wedi bod yn rhoi i ofyniadau'r *Sphinx* yr atebion goreu fedrent ddod o hyd iddynt. Nid oes neb wedi cael goleuni cyflawn, nid oes neb wedi ateb y gofyniadau yn hollol gywir. Cael gan ddynion—gan Gristionogion fel gan bobl o bob crefydd arall—i edrych ar eu crefyddau yn y goleu hwn ydyw un rhan o waith prophwydi y dyddiau nesaf. Ac am mai hyn ydyw amcan blaenaf y mudiad Bahaidd, eiddunwn iddo Dduw yn rhwydd.

GWYLIEDYDD.

YMSON Y MYFYRIWR.

GURAF wrth ddrws yr ystafell olygyddol y tro hwn gyda chryn dipyn o bryder calon. Nid wyf yn eön iawn un amser pan yn dynesu ato. Dywedir wrthyf gan y cyfarwydd â chyfrinion yr ystafell fod peryglon lu ar ffordd

MYFYRDODAU ANADDFED

ysgriblwyr anghyfarwydd. Dyna'r sisiwrn, er enghraifft: y mae hwn, y mae yn debyg, yn awchus rhyfeddol. Y mae ei faintioli, hefyd, yn ddigon i beri dychryn i'r galon wan, lesmeiriol. Dyna'r fasged eto, dipyn yn nes yn mlaen, yn un o onglau'r ystafell. I hon, fel y'm

hysbysir, y dedfrydir llawer iawn o erthyglau, ie, o erthyglau galluog hefyd, os gellir rhoi dybyniaeth ar farnau eu hawdwyr. Ond y mae golygyddion, yn fynychaf, yn ddynion ôd rhyfeddol, pan y gelwir arnynt i glorianu cynyrchion eu gohebwyr—ôd o leiaf yn marn y gohebwyr eu hunain. Y mae yn bosibl, er hyny, pe celai'r darllenydd ryw syniad am ansawdd cynwys y fasged, y byddai efe o farn tra gwahanol: tebyg iawn y barnai efe fod golygyddion yn ddynion o ddoethineb eithriadol. Gydag ofn, felly, yn gymysgedig ag yspryd anturiaethus, y dynesaf atoch y tro hwn, i gynyg i'ch ystyriaeth y sylwadau hyn ar y pwnc hynod, sef,

DUWINYDDIAETH ŴY GIAR—

nid ŵy giar yn fwy na rhyw ŵy arall, o ran hyny, ond dyna'r ŵy ddaeth i'm meddwl pan ddechreuais ymgodymu â'r pwnc pwysig uchod. Dichon y gofyna rhywun—pa dduwinyddiaeth all fod yn gysylltiedig ag ŵy giar? Y mae'r gofyniad hwn yn un eithaf priodol. Efallai mai ffrwyth dychymyg gwagsaw ar fy nhu i yw'r dybiaeth fod ŵy giar yn awgrymu dim ellir ei alw yn dduwinyddiaeth. Ond yn fy myw ni allaf gadw'r pwnc o'm meddwl; ac ni fedraf gredu lai na ellir

CYSYLLTU'R DDAU A'U GILYDD—

sef, ŵy giar a duwinyddiaeth. Y mae'r darllenydd, yn ddiau, yn hen gyfarwydd a'r gofyniad—Pa un ai'r ŵy ynte'r iar oedd y cyntaf? Y mae'r gofyniad hwn wedi peri cryn flinder i lawer heb fy hunan. Pan yn ieuanc iawn, ni ddygai dim i mi fwy o foddhad ac o ddifyrwch na rhoi'r gofyniad hwn i'm cymdeithion. Ond heblaw ei fod yn ffynhonell o ddifyrwch, edrychwn arno hefyd fel pwnc pwysig iawn. Aml oedd y dadleuon mewn perthynas iddo. Nid oedd y dadleuwyr, mae'n wir, ddim yn nes i benderfynu'r mater ar derfyn y ddadl nag oeddent ar ei dechreu. Dyna fel y mae gyda dadleuon ar bynciau o'r fath hyn bob amser. Cofus gan lawer o honom am ddadleuon duwinyddol brwd dyddiau ein hieuenctyd. Gyda pha bybyrwch a gwres eithafol y dadleuai'r partïon o blaid eu daliadau! Ond yn yr un man yr oeddent, fel rheol, ar derfyn pob dadl: yr oedd pob un yn sicr yn ei feddwl ei hun mai efe oedd iawn. Nid yw'r pynciau hyn y dadleuid yn eu cylch gynt wedi eu penderfynu eto; ac y mae dadleuon duwinyddol wedi cilio bron yn llwyr i'r cysgodau. Ond, a siarad o ddifrif, y mae mwy yn y gofyniad uchod o barthed blaenoriaeth yr ŵy a'r iar nag a feddylir. Pan yn ymresymu yn ei gylch, dywedwn fel hyn: Y mae'r iar, ar un olwg, yn anmhosibl heb yr ŵy; ar y tu arall; y mae'r ŵy yn anmhosibl heb yr iar. Dilynwn y mater yn ol—yn ol i gysgodau boreu-fyd, os myner: gan nad pa mor bell yr olrheinir ef, ymddengys—o leiaf, i un o feddwl a dychymyg gwan—yn anmhosibl lai na bod adeg rywbryd pan y daeth un o honynt i fodolaeth y tro cyntaf. Y pwnc yw—

PA UN OEDD Y CYNTAF?

Hawdd yw holi; nid mor hawdd yw ateb. Y mae'r pwnc hwn, mi feiddiaf ddyweyd, yn un nas gellir ei benderfynu. Gallwn ffurfio damcaniaethau mewn perthynas iddo; ond damcaniaethau fyddant, ac nid ffeithiau sylfaenedig ar dir cadarn gwybodaeth sicr. Y mae hyn yn wir am yr oll o bynciau gwyddor yn ogystal ag am bynciau crefydd ac athroniaeth. Dywedwn yn fynych: yn nhiriogaeth gwyddor, fod genym wybodaeth y gallwn ddybynu ar ei chywirdeb; ond yn nhiriogaeth duwinyddiaeth ac athroniaeth nid yw'r cwbl ond damcaniaethau. Y mae hyn oll yn wir. Ond y mae hyn yn wir hefyd—nad oes un pwnc o wyddor nad yw, ar ol ei olrhain yn ol i'r man pellaf posibl, yn gorphwys ar ddamcaniaeth. Ni'm dychrynir pan ddywedir wrthyf mai seiliau damcaniaeth sydd i bynciau duwinyddiaeth ac athroniaeth. Felly, er dyweyd o honof nas gellir penderfynu'r pwnc uchod, gall dyn ddamcanu yn ei gylch. "Beth yw eich damcaniaeth chwi?" medd rhywun wrthyf. Rhaid i mi gyfaddef nad oes genyf yr un y gosodaf ymddiriedaeth lwyr ynddi. Weithiau fe'm tueddir yn gryf i

GREDU MEWN CREADIGAETH ARBENIG;

hyny yw, bod yna adeg wedi bod rywbryd, yn mhell bell yn ol, rhy bell yn ol i'r meddwl allu ei ddirnad, pan y dygodd y Crewr un o'r ddau—yr iar neu'r ŵy—i fodolaeth trwy weithred greadigol arbenig. Gwn fod y casgliad hwn yn anerbyniol gan lawer; a'i fod hefyd yn wrthwynebol i'r olwg wyddonol gyffredin. Ond y mae yn apelio yn gryf ataf weithiau—mor gryf fel na fedraf yn hollol lwyddianus gael gwared o hono. Mwy rhyfeddol na'r agwedd hon o'r mater, fodd bynag, yw'r ŵy ei hun. Daliaf ef yn fy llaw, edrychaf arno: mor rhyfeddol gywrain yw'r oll o'i adeiladwaith. Y mae cynllun y plisgyn yn gynyrch meddwl, yn gynyrch meddwl celfyddydol o'r radd flaenaf. Torer y plisgyn, a dadansodder ei gynwys: mor rhyfeddol gywrain yw hwn eto, mor berffaith yw trefn y cynwys. Y mae'r oll o hono, mewn gair, yn wyrth, ger bron yr hon y syrth holl wyrthiau cofnodedig hanes i'r cysgod. Dyma fe—y plisgyn, yr amwisg deneu rhwng y plisgyn a'r cynwys, y gwyn yn nesaf at yr amwisg, y melyn yn cael ei amgau gan y gwyn, ac yna yn y canol yr hedyn o fywyd a defnyddiau corph a dry allan, ar ol bod mewn gwres priodol am ychydig ddyddiau, yn aderyn byw. Y mae'r cwbl yn rhyfeddol, onid yw?

BETH YNTE, DDYWEDAF?

Dywedaf fod yr ŵy bychan, prydferth, cywrain, yn awgrymu Crewr a Chynlluniwr. I mi, o leiaf, y mae felly. Ni fedraf edrych ar y mater yn un goleu arall. Y mae'r ŵy yn ddyrys-beth nas gallaf gyfrif am dano ond yn y fel hyn. Am y rheswm hwn y cysylltaf ŵy giar a duwinyddiaeth—am ei fod yn arwain, yn anwrthwynebol yn fy achos i, i'r casgliad fod iddo Grewr a Chynlluniwr. Ac os i'r ŵy, yna i bob peth arall. Meddyliau amrwd yw y rhai hyn, rhwydd

gyfaddefaf. Ond os meddyliau amrwd ydynt, y mae un peth yn fy nghysuro, sef nad oes ond ychydig iawn o ddynion, os oes neb, a allant fforddio taflu careg ataf. Oherwydd amrwd yw ein meddyliau ni i gyd—o leiaf, meddyliau y rhan fwyaf o ddynion—unwaith y troediwn ar diriogaethau pynciau damcaniaethol o'r fath hyn.

MYFYRIWR.

PUM' PENILL ER COF AM Y DIWEDDAR DAVID MORGAN, MOELFRE.

[*Buddugol yn Nghapelygroes, Nos Wener, Rhag. 27, 1912.*]

Angeu! Angeu! nid oes dostur
Yn dy fynwes di i neb;
Ti sy'n dryllio cwpan cysur,
Ac yn troi y rudd yn wleb;
Daeth dy genad di i Foelfre,
Ac a llafn ei finiog gledd
Fe wnaeth yno frad anaele—
Torodd fwyn-ddyn mad i'r bedd.

Dafydd Morgan, dawel, diddan,
Aeth o ganol nawn ei oes;
Ac mae gwlad o'i ol yn cwynfan,
Ac mae'i deulu cu dan loes.
Do, fe gollodd dyffryn Granell
Un o'i feibion goreu gaed,
Pan yng ngwyll ei lonydd hunell
Rhoi'r amaethwr gonest wnaed.

Dangnefeddwr mwyn a llariaidd!
Coledd yr encilion, lle
Mae'n blodeuo grinllys gwylaidd
Moes a chrefydd wnai efe;
Megis awel Mai yn lloni
Eilwaith feusydd gwiw ein tir,
Yntau yn nrycinoedd cyni
Fu i'r gwan yn gyfaill gwir.

Ni udganai'i elusenau,
Deuent fel y gwlith o'r ne';
'Roedd ei enaid yn ei eiriau,
'Roedd ei galon yn ei lle.
Gwr adwaenid fel cymydog,
Na lochesau frad na thwyll;
Nid o anian wyllt a throiog,
Arwr oedd yn nheml pwyll.

Ffarwel, Gristion! os dy wyneb
Mwy ni welwn, ac o'th fin
Os na chlywir mwy'th ddoethineb,
Mae dy gofio'n well na gwin:
Hyd nes eto dy gymdeithas
Gawn mewn gwlad heb ing na loes
Ffarwel, Gristion, gwâr cyweithas,
Cwsg mewn hedd yn enw'r Groes.

CLEDLYN.

YMWELIAD A CANADA A'R UNOL DALAETHAU.

(PARHAD).

Wedi gweled prif fanau o ddyddordeb yn Montreal a'r amgylchoedd aeth fy nghyfaill a minau yn mlaen i Ottawa yr hon yw prifddinas Canada mewn ystyr boliticaidd. Ar un amser yr oedd tipyn o ymrafael rhwng Quebec, Montreal a Toronto, mewn perthynas i'w pwysigrwydd gwleidyddol, ond yn 1858 rhoddodd y Frenhines Victoria derfyn ar yr anghydfod drwy apwyntio Ottawa yn brifddinas. Mae y wlad rhwng Montreal ac Ottawa yn hardd iawn. Mae yr afon Ottawa mewn rhai manau yn filltiroedd o led, ac y mae yn frith gan ynysoedd o bob desgrifiad. Mae y gwastadedd eang gan mwyaf dan wrtaith ardderchog, ond mae darnau o dir eto heb dderbyn triniaeth, i ddangos pa mor anial a dilewyrch ydoedd y wlad pan gyrhaeddodd y sefydlwyr cyntaf yno. Yn awr gellid cymhwyso yr hen emyn, mewn ystyr dymhorol, at y wlad oddiamgylch :

Blodeua'r anial dir,
Fu'n sarug hir amserau ;
Daw'r broydd yn wyrdd a'r bryniau'n hardd
Fel Eden ardd gan flodau.

Gwelais lawer o flodau yn tyfu yn wyllt yno ag a welwn yn unig mewn gerddi yn y wlad hon megys y "Lili Felen" a "Ffarwel Haf." Yr oedd yn hyfryd gweled ffermydd mawrion yma a thraw, a thai cysurus arnynt, fel y ceir yn rhanau mwyaf ffrwythlon o Ddeheudir Cymru. Ar ol cyrhaedd Ottawa aethom i'r Russell House Hotel lle teimlem yn dra chartrefol. Saif y ddinas ar lecyn rhamantus iawn lle yr ymarllwys yr afon Rideau i'r Ottawa. Mae y boblogaeth erbyn hyn oddeutu 75000. Mae oddeutu haner eu nifer yn Ffrangcod o waedogaeth ac yn Babyddion, a'r gweddill yn Brotestaniaid. Mae yr holl heolydd wedi eu ffurfio yn eang a syth, ar gyfer dadblygiad mawr ryw ddydd, mewn poblogaeth a masnach. Mae *Town Planning* wedi ei gario allan ar raddfa ardderchog yno. Mae yr adeiladau cyhoeddus yn ddestlus dros ben. Costiodd y Senedd-dai filiwn o bunau i'w hadeiladu yn 1859—65, ac y maent yn addurn i'r diriogaeth. Cawsom gymwynasau dirif gan aelodau o'r Eglwys Undodaidd yno, ag oeddynt yn dal swyddi pwysig dan y Llywodraeth. Dangosasant i ni bob peth o bwysigrwydd yn yr ardal. Fel engraifft, awd a mi i weled *Experimental Farm* ardderchog y diriogaeth, lle ceisir gwneud allan beth sydd yn talu oreu, mewn cnydiau ac anifeiliaid. Heuir yno bob math o ŷd, a'r hwn sydd yn dwyn mwyaf o gynyrch sydd yn cael y flaenoriaeth. Gwneir yr un peth a'r coedydd a ffrwythau'r ardd hefyd. O'r diwedd mae Cymru yn ymddihuno at hyn, a rhwydd hynt iddi. Amaethyddiaeth yw yr hynaf o'r holl alwedigaethau dynol ; ac mae hefyd y fwyaf pwysig ac urddasol. Fechgyn ffermwyr Cymru, sydd a gwaed pur yn eich gwythienau a lliw iechyd ar eich gruddiau ! gwell o lawer fyddai i chwi aros gartref i "aru'r ddaear iraidd" yn ol y wybodaeth amaethyddol fwyaf diweddar, nac ymboeni a nychu eich hunain, fel y gwna llawer yn y gweithfeydd a'r trefydd mawrion. Mae dwy raiadr fawr yn Ottawa. Mae un o honynt ar yr afon Rideau lle y disgyn y dwr dros graig o uchder mawr, yn un ffrwd loew, lefn, fel curten, yr hyn yw ystyr ei henw. Mae y rhaiadr arall ychydig yn îs i lawr ar yr afon Ottawa. O dan ei ffrwd, yr hon nid yw o uchder mawr, mae pwll dwfn iawn. Tybia yr Indiaid Cochion fod y pwll yn

gartrefle rhyw yspryd aflan, a cheisient ei berswadio i beidio suddo'r cychod drwy offrymu dybaco iddo ryw amser o'r flwyddyn. Digon tebyg fod hyn yn gystal defnydd o'r myglys a'i ysmocio. Ond rhaid i mi ymatal, oherwydd yr wyf yn teimlo fy mod yn sangu ar dir tra pheryglus. Fel yn Quebec, y fasnach goed yw prif drafnidiaeth Ottawa. Ar lan yr afon mae llawer iawn o felinau llifo lle mae nifer fawr o bobl yn cael gwaith. Pan oeddym yn Ottawa yr oedd yn ddyddiau gwyl ac yr oedd miloedd lawer o ymwelwyr yno, yn benaf brodorion yn dyfod i roi tro i'w hen gartref. Un diwrnod aethom i weled *Lacrosse*, un o'r prif chwareuon cenedlaethol, yn cael eu chwareu i berffeithrwydd. Ond mewn gwirionedd, nid chwareu oedd ond gwaith caled iawn, fel y bel droed yn y wlad hon. I mi yr oedd gweled y clwyfedigion yn cael eu cludo o'r orchest yn spwylo'r cyfan. Yn hwyr yr un dydd rhoddodd tyrfa o Indiaid Cochion arddangosfa o'r modd yr arferent ymosod ar y sefydlwyr a dinystrio eu cartrefi. Anfynych y cymer hyn le yn awr, hyd yn oed yn y Gogledd Orllewin pell, lle mae yr Indiaid eto yn lluosog.

O Ottawa aethum wrthyf fy hun gyda'r trên i Brookville er mwyn cymeryd yr agerlong drwy y "Mil Ynysoedd" a Llyn Ontario i Toronto. Mae Brookville yn un o amryw drefydd bychain ar yr ochr ogleddol i'r afon St. Lawrence, ac mae yno arwyddion cysur ar bob llaw. Yn yr Haf treulia'r ieuenctyd braidd yr oll o'u hamser hamddenol i rwyfo ar yr afon. Yn fuan wedi myned ar fwrdd yr agerlong hardd, gwelem yr Ynysoedd o'n blaen. Er eu gelwir yn "Fil Ynysoedd," mewn gwirionedd rhifant dros ddeunaw cant. Am dros ddeugain milltir brithant yr holl afon, ac mae yr olygfa yn rhyfeddol hardd. Ar lawer iawn o honynt mae tai destlus wedi eu hadeiladu gan gyfoethogion Canada a'r Unol Dalaethau, a phreswyliant yno yn ystod misoedd yr Haf. Dywedir nad yw'r boneddigesau yn hoff iawn o'u bywyd ar yr ynysoedd hyn, am nad allant fyned o gwmpas i weled y siopau fel yn y trefydd! Digwyddwn fod yno ar ddydd gwyl, a gellid tybied fod yr oll o'r trigolion yn rhwyfo o ynys i ynys. Yr oeddynt wedi ymwisgo yn holl liwiau yr enfys ac ymddangosent fel pe yn mwynhau bywyd yn anghyffredin. O'r diwedd cyrhaeddasom lyn eang Ontario yr hon sydd 197 o filltiroedd o hyd, ac amrywia ei lled o 30 i 70 o filltiroedd. Teithiasom drosti gan mwyaf yn y nos, ond ni chollasom lawer drwy hyny, gan ei bod mor eang, a'i glanau mor isel, fel na allem weled tir. Cyrhaeddasom Toronto yn dra boreu, ond yr oedd y trigolion gan mwyaf yn effro ac yn brysur wrth eu gwaith. Yn iaith yr Indiaid Cochion ystyr y gair Toronto yw "lle cyfarfod." Tebyg iawn fod y brodorion yn cydgyfarfod yno yn yr hen amser i drin materion pwysig mewn perthynas i hawliau'r llwythau, helwriaeth a phethau cyffelyb. Saif y ddinas mewn cilfach gysgodol ar ochr ogleddol i'r llyn ac mae'r boblogaeth erbyn hyn yn sicr o fod yn dri chan' mil, gan mwyaf sefydlwyr neu ddisgynyddion sefydlwyr o'r wlad hon. Mae'r mwyafrif o honynt yn Brotestaniaid trwyadl. Ar unwaith gwna'r le argraff foddhaol ar y teithiwr. Mae arwyddion llwyddiant a llawnder yn mhob cyfeiriad. Gelwir Toronto yn "ddinas y cartrefi" yr hyn sydd ddesgrifiad tra chywir o'r rhanau hyny lle mae y bobl yn byw. Mae yr heolydd yn llydain a gerddi llawn o flodau a ffrwythau o amgylch y tai. Nid oes mur na chlawdd o un math i gadw dieithriaid allan o'r gerddi, ac mae pawb yn parchu hawliau eu cymydogion i'r fath raddau fel na wnant ddim niwed i'w heiddo. Ar bob ochr i'r ffyrdd mae coedydd hardd yn tyfu i gysgodi'r tai. Mae y brif heol, Yonge Street — yn dair milltir ar hugain o hyd. Mae yr adeiladau cyhoeddus fel y Llythyrdy, y Coleg Normalaidd, y Brifysgol a Gwesty Iorwerth y Seithfed lle yr oeddwn yn aros, yn ddestlus iawn. Mae yno achos Undodaidd tra dy-

lanwadol, ond yr oedd yr Eglwys wedi ei chau am Wyliau'r Haf tra yr oeddwn i yno. Perthyna i'r enwad rai o brif ddinasyddion y lle, ac yn eu plith chwaer y Parch. Jenkin Lloyd Jones, o Chicago. Wedi gweled yr hyn oedd o ddyddordeb neillduol i mi aethum yn mlaen i Niagara i syllu ar un o brif ryfeddodau'r byd. Cymerais y ffordd hawddaf. Aethum gyda'r agerlong a glaniais yn Lewiston, ychydig islaw lle mae dyfroedd Niagara yn ymarllwys i Lyn Ontario. Mae y dreflan hon ar yr ochr Americanaidd i'r llyn ac nid yw y daith oddi yno i ddinas Niagara ond rhyw saith milltir gyda'r trên. Ar y trên hwn cyfarfyddir a braidd bob llwyth, iaith a chenedl dan y ser, a phawb yn teithio gyda'u un amcan, sef gweled y rhaiadr byd-enwog. Wedi cael ychydig ymgeledd yn y gwesty mawr cyd-genedlaethol lle yr oedd negroaid o'r De yn gweini ar yr ymwelwyr aethum allan gan fwriadu gweled y rhaiadr ar unwaith, ond yr oedd ofn arnaf agor fy llygaid ar yr olygfa rhag i mi gael fy siomi. O'r diwedd ymwrolais ac aethum yn mlaen i fan cyfleus i gael cip-olwg o'r weledigaeth ryfeddol. Yr oedd y cyfan yn gàn mwy mawreddog ac ofnadwy nag oeddwn erioed wedi ddychmygu. Mae yr enw Niagara —"Taran y Dyfroedd"—yn un priodol iawn. Am braidd yr oll o'r 36 o filltiroedd rhwng Llyn Erie a Llyn Ontario mae yn "Daran y Dyfroedd" yn enwedig am filltir yr ochr uchaf i'r rhaiadr lle mae'r afon yn culhau, a'i chwrs wrth lifo dros y creigiau yn dyfod yn fwy serth. Rhenir y ffrwd yn ddwy gan Ynys yr Afr yr hon gymer un rhan o dair o led yr afon yn y fan hon. A chyfrif yr ynys mae lled yr afon yn agos iawn i filltir. Mae y rhaiadr ar yr ochr Brydeinig yn 2550 o droedfeddi o led ac yn 158 o uchder, tra mae y rhaiadr arall ar yr ochr Americanaidd yn 1060 o led ac yn 167 o uchder. Dros y graig a ffurfia wely'r afon rhuthra deuddeg miliwn o droedfeddi cubig o ddwfr bob mynud! Mae y swn yn fyddarol, fel "swn dyfroedd lawer" yn y weledigaeth. Cyfyd cwmwl mawr o ewyn gwyn o'r pwll berw islaw, ddydd a nos ac y mae yr olygfa yn ofnadwy yn ei hardderchawgrwydd. Mae yn "Daran y Dyfroedd" mewn gwirionedd. Mae yn fwy parhaus ac felly yn fwy dychrynllyd i'r clyw na'r daran. Fel y sylwn ar y dwr fel y rhuthrai yn mlaen ac y clywn ei swn fel cydgan fawreddog, teimlwn fy mod yn mhresenoldeb y Bod mawr a wnaeth y cyfan. Nid yw yr olygfa ryfeddol hon wedi cyfnewid llawer, efallai er ys miliwn o flynyddau. Blwyddyn ar ol blwyddyn a chanrif ar ol canrif mae y Niagara yn datgan gogoniant Duw, yn ei hiaith ofnadwy ei hun. Pan fyddo'r haul yn tywynu ffurfir enfys uwchben, yr hyn a wna yr effaith yn fwy tarawiadol fyth.

Ar ochr Canada mae lle wedi ei wneud i fyned i lawr i waelod y ffrwd yr hon sydd ar lun pedol ceffyl; ac o'r fan hon mae twnel yn cyrhaedd hyd dan y rhaiadr fel y gellir gweled drwyddi. Wedi gosod dillad *oil skin* am danaf, aethun i lawr i grombil y ddaear ac wedi dod o'r tywyllwch yr oedd yr olygfa braidd yn fwy rhyfedd ac ofnadwy nac o'r tu allan. Mae y pwll mawr lle y disgyn y dwr yn gymharol dawel ac mae agerlong fechan arno yn barhaus yn cludo teithwyr o un ochr i'r llall i'r afon. Er y dywedir fod y daith yn ddiberygl gwell oedd genyf fi fod ar dir sych. Un diwrnod aethum gyda'r trên ar yr ochr Brydeinig i weled y Trobwll mawr a'r *Rapids* – y dwr yn rhuthro yn mlaen fel pe yn awyddus i gyrhaedd Llyn Ontario mor fuan ag oedd modd. Mae'r dwr yn llifo mor gyflym fel mae canol y cenllif yn codi ryw ugain troedfedd yn uwch na'r ochrau Nis gallwn gyffelybu yr olygfa i ddim gwell na rhes o geffylau gwynion yn carlamu nerth eu carnau i'r goriwaered, a'u mwng yn chwifio yn yr awyr. Nid yw yr afon yn y fan hon ond tri chàn troedfedd o led. Gwnaeth Cadben Webb ymgais i nofio trwy y rhyferthwy ofnadwy yn 1883, ond yr olwg olaf gawd arno oedd yn y Trobwll, lle yn ddiameu y collodd ei fywyd. Yn ddiweddarach

mae amryw bersonau wedi llwyddo i nofio drwy y cenllif mewn barelau. Gerllaw gorsaf y Trobwll oddiar fryn bychan mae golygfa hardd iawn o'r wlad oddi amgylch. Mae yn amlwg mai yno ar un amser oedd y rhaiadr ond ei fod wedi gweithio ei ffordd i fyny'r afon drwy dreulio'r graig. Mae yn rhaid i mi gyfaddef ei bod yn anhawdd iawn genyf ymadael a Niagara a'r ardal. I mi yr oedd rhyw swyn rhyfedd yn y lle. Gallwn lawn sylweddoli y carai'r Indiaid y fan. Fel y crwydrent drwy y coedwigoedd oddi amgylch gan wrando ar gydgan dragwyddol y dyfroedd yn llifo dros y creigiau teimlent eu bod yn mhresenoldeb Gallu uwch na hwy eu hunain, ac yno addolent yr Yspryd Mawr anweledig. Yn yr un modd, teimla y rhai ydynt wedi cael eu dysgu i addoli y Tad mewn yspryd ac mewn gwirionedd, yr un parchedig ofn wrth syllu ar yr olygfa. Erys fy ymweliad a Niagara fel un o'm profiadau crefyddol dyfnaf. Y fynud hon wrth adolygu yr hyn a welais, tybiaf fy mod yn canfod y dyfroedd disglaer yn llamu dros y graig, ac yn clywed yr anthem fawreddog sydd yn esgyn drwy yr oesoedd, i fyny at orsedd y Duw tragwyddol, yr Hwn a wnaeth yr oll mor hardd.

(*Yw barhau.*)

E. Ceredig Jones.

"MEWN UNDEB MAE NERTH."

(Parhad).

(Gan Daniel Jones, C.M., Mydroilyn).

Hanes y Ddynoliaeth a Dechreuad Undebau.—Pan y teflir cipdrem yn ol dros hanes y ddynoliaeth o'r amser boreuaf i lawr hyd yr oes bresenol, gwelir yn eglur gyfnewidiadau a gwelliantau pwysig wedi cymeryd lle o oes i oes. Ar ddechreuad hanes, yn y gorphenol pell, nid oedd son am neb ond penaethiaid yn unig, y rhai oeddynt dywysogion ac arglwyddi dros ddarnau helaeth o'r wlad. Gwelir hyn yn amlwg yn hanes yr hen Frythoniaid, Rhufeiniaid, Saxoniaid, Daniaid a Normaniaid, tra yn llywodraethu y wlad yn eu cyfnodau pell a thywyll hwy. Ar ol congcwest Gwilym y Gorchfygwr, yn 1066, rhanwyd y wlad yn etifeddiaethau i arglwyddi neillduol, y rhai oeddynt benau ar eu rhandiroedd neillduol hwy. Er i Gwilym, y Brenin, gymeryd y gofal mwyaf i sicrhau cadernid ei sefyllfa trwy wneuthur iddynt oll dalu gwarogaeth a gwasanaeth iddo, a pheri i'r îs-arglwyddi wneuthur yr un fath i arglwyddi uwch, gofalodd gadw y werin, yn gyffredin, druain, yn ddigon darostyngedig. Nid oeddynt nemawr gwell na chaethweision, canys llywodraethid a gwneid a hwy yn union fel y gwelai yr arglwyddi yn dda. Dyna, yn syml, fraslun o'r undeb ormesol hono y ceisiai y brenin hwn gadw ei lywodraeth wrth eu gilydd. Yn nes yn mlaen dechreuir canfod

fod gallu yn y wlad sydd yn gryfach nac un arglwydd na phenaeth. Dechreuodd y werin deimlo y nerth hwn, ac er iddynt fod yn hir, ie, canrifoedd lawer, cyn cael yr awenau i'w dwylaw, ac hyd heddyw heb eu cael yn berffaith felly, gwelwn arwyddion ei fod yn dechreu blaguro a dangos ei hun tua'r cyfnod boreu hwn. Gwnaeth y barwniaid gynt waith bendigedig trwy orfodi y brenin John i arwyddo y Siarter Fawr, yr hon yw careg sylfaen egwyddorion rhyddid a nerth gwerin. Treigl yr amser, a gwelwn ddatblygiadau a chyfnewidiadau. Nerth y werin a welir yn cryfhau ar gost lleihad a gwanhad dylanwadau arglwyddi. Er i Ryfel y Rhosynau wneuthur difrod mawr yn y wlad ar fywydau ac eiddo, erys yn ffaith ei fod wedi gadael ar ei ol un fendith arbenig. Yn y brwydrau aml yn yr amseroedd terfysglyd hyny, torwyd i lawr flodion "aristocrataidd" y wlad, gan adael aml i arglwyddiaeth heb yr un etifedd i'w meddianu. Ar ol hyn collodd y penaethiaid ran helaeth o'u gallu; wedi brwydro am ysbaid hir yn erbyn eu gilydd collasant yr undebau hyny wauent eu bywydau wrth eu gilydd er mwyn trethu a gwanhau y gweithiwr caled a gonest. Mae llawer o ddaioni yn tarddu yn aml, hyd yn oed oddiwrth weithrediadau na feddyliodd y sawl oedd wrth eu gwraidd am danynt. Awn yn mlaen, a gwelwn Luther yn tori cadwynau llygredig Pabyddiaeth, a Chranmer, Latimer a Ridley yn dyoddef wrth y stanc, gan "oleu canwyll na ddiffydd yn Lloegr." Llwybr garw welodd y ddynoliaeth i sicrhau rhyddid gwladol a chrefyddol; llawer un orfu roddi ei fywyd yn aberth trosom er sicrhau y breintiau lliosog fwynhawn heddyw. Penodau cymysglyd iawn geir yn hanes y linach Stuart. Gwelir y Tadau Pererinol yn gwynebu ystormydd moroedd anadnabyddus er caffael rhyddid i addoli yn ol eu cydwybodau. Gwelir grym ac afresymoldeb y gwahanol ddeddfau basiwyd yn erbyn yr Anghydffurfwyr; eithr trwy yr oll gwelir y werin yn raddol ac yn sicr enill mwy o nerth. Bellach, mae ganddynt ryw gymaint o lais yn llywodraethiad y wlad, a diflana yr hen syniad yna "nas gall brenin wneuthur drwg" dan belydrau gwybodaeth a phrofiad. Mae yn awr dros ddau can mlynedd oddiar yr amser hwn, ond gwelir y werin yn araf sicrhau ychwaneg o freintiau yn barhaus. Mae llawer mesur diwygiadol wedi ei basio trwy Senedd Prydain Fawr yn ystod y can mlynedd diweddaf, yn ogystal ag yn yr amser presenol. Mae mesurau rhagorol yn cael eu darllen a'u dadleu yn gyson o blaid rhyddid a chyfiawnder i'r gweithiwr Prydeinig. Nid heb ryfeloedd, tywallt gwaed, merthyrdod a lladdedigaeth y mae y byd wedi esgyn i'r sefyllfa ag yr erys heddyw. Mae gwaed teuluol yr arglwyddi a phendefigion wedi berwi, ac yn berwi yn eu gwythienau dros gadw y werin odditanynt, a'u sathru dan eu traed, gan fwynhau mêl llafur caled y gweithiwr mewn gwleddoedd ac anfoesoldeb. Nid syn, felly, eu bod yn ymddangos mor ffyrnig yn aml yn erbyn mesurau ddygir gerbron y Senedd er dyrchafiad y werin. Na, mae Prydain bron esgyn i gopa cydraddoldeb, a hyny a wnaeth trwy nerth anorchfygol undeb y werin. Yn awr, clywir mwy o son nac erioed am undebau o bob math a gradd. Sylweddola y gweithiwr, trwy brofiad yr oesau, y gwir nerth sydd yn gysylltiedig ag undeb, er o bosibl, fod perygl i wneuthur defnydd o honynt i amcanion ereill yn hytrach nag i lesoli cymdeithas yn gyffredinol.

Y Daioni Cyffredinol sydd yn Deilliaw o Undeb.—Fel yr awgrymwyd eisoes, nis gall yr unigol, tra yn byw yn anibynol, wneuthur rhyw waith mawr yn unrhyw gyfeiriad. Gwir fod ambell eithriad i hyn fel sydd i bob rheol arall, ond nis gall yr eithriadau brofi y pwnc mewn unrhyw fodd. Yn aml iawn, mewn perthynas ag eithriadau o'r fath y mae yna ryw alluoedd cyfriniol a chudd yn gweithio y tu ol i'r parwydydd nad yw y byd oddiallan yn gwybod fawr am danynt. Erys yn

ffaith fod llawer gwron wedi anfarwoli ei hun trwy dori tir newydd mewn rhyw wybodaeth neu ddarganfyddiad. Darllenir am engreifftiau felly yn aml, sef dynion rhinweddol a gweithgar wedi dadorchuddio lleni trwchus ofergoeledd oedd yn clogyni gwybodaeth a chrefydd, &c.; ond er hyn oll, er eu bod yn ymddangos yn brwydro ar eu penau eu hunain, yr hyn, i fesur helaeth, oeddynt yn wneud, nid oeddynt heb brofi cymorth caredig lliaws o blant dynion, cyn, ac yn ystod yr amser hwnw. Mae undeb yn wastadol yn foddion i gryfhau y gwan, gan sefyll drosto a'i amddiffyn yn awr dywell cyfyngder. Defnyddiwn y term "gwan" gan mai gwanaidd, yn naturiol, yw ymdrechion goreu dyn tra yn anibynol o ereill. Calonogir y dyn yn y modd hwn i sugno mwy o gysur a diddanwch oddiwrth fywyd. Teimla, bellach, fod ganddo ereill i gyd-gario ei faich, a chyd-weithio, a chyd-frwydro ag ef yn erbyn temtasiynau y byd. Pan y syrth i brofedigaeth a thywyllwch ingol bywyd, teimla y pwysau yn cael ei ysgafnhau trwy i ereill gymeryd rhan ohono oddiarno. Caiff ragor o gydymdeimlad hefyd mewn trallodion o'r fath. Mae'n wir, ein bod yn byw mewn byd lled ddideimlad, wedi'r cyfan; ond teimlwn ryw fywyd newydd yn ilanw ein calonau yn wastadol pan yr estynir i ni law o wir gydymdeimlad oddiwrth frodyr a chyfeillion hoff. Trwy dywyllwch siomiant a galar nerthir ni i chwilio am wawl tuhwnt i'r cwmwl du. Os yw brodyr a chyfeillion yn aml yn tynu ymaith gyfran helaeth o'r trymder yn nydd trallod, croeswn derfynau rhesymeg, efallai, trwy ddweyd eu bod yn dyblu ein llawenydd yn nydd llwyddiant. Digon yw dweyd fod cydymdeimlad y rhai hyn mewn tymhorau heulog, hafaidd yn ychwanegu cryn dipyn at yr hyn a fwynhawn eisoes. Nid oes angenrhaid i nodi unrhyw engreifftiau i brofi un o'r ddau sylw uchod, canys y maent yn wirioneddau brofir yn feunyddiol.

Trwy undeb, mae dyn yn abl i sicrhau a mynu ei iawnderau yn aml, pa rai, yn debygol, na ddeuent i'w ran ef tra ar ei ben ei hun. Gwaith hawdd yw tori un brigyn bychan o'r pren, eithr teimlir y gwaith o dori llawer ohonynt wedi eu cylymu wrth eu gilydd yn orchwyl caled, ac aml, yn anmhosibl. Felly yn gywir y saif dyn. Hawdd iawn yw i'r cyfoethog i drechu a llabyddio y llawd diymadferth, eithr mae y gorchwyl o ymosod ar reng ohonynt dan gwlwm undeb yn flinderus a chaled. Yr un modd, deillia llawer o ddaioni yn mhellach; trwy fod yn aelod o undeb ni chaiff yr un ohonynt ddyoddef i'r cymaint graddau ag a fyddai yn rhaid iddo, pe wrtho ei hun. Os y syrth i amgylchiadau cyfyng a thymhestlog mae yna freichiau cadarn i'w nerthu a'i ddal i fyny ar yr awr ddua', a phryd arall, pan y gwel frawd mewn amgylchiadau cyffelyb, mae yn alluog i ad-dalu iddo y gymwynas gynt, o bosibl, gyda llog. Plethir y werin, felly, wrth eu gilydd i fwynhau breintiau a sugno cysuron nad allent trwy un ffordd arall eu cael. Yr hyn oedd foethusrwydd flynyddau mawrion yn ol sydd erbyn heddyw yn angenrhaid cyffredin. Mae sefyllfa ac ystad y werin wedi eu cyfodi a'u gwella i'r fath raddau na welodd y byd o'r blaen ei thebyg, a phriodolir hyn, i fesur pell, i'r gwahanol undebau ffurfir yma a thraw trwy ein gwlad.

Trwy fod yn aelod o undeb mae dyn yn gallu mwynhau breintiau cymdeithas yn fwy trwyadl. Daw i gysylltiad ag ereill, a llyfnir i lawr hen gornelau miniog mympwy a rhagfarn, a gwneir ef yn aelod defnyddiol o gymdeithas. Pa fwyaf yr erys dyn ar ei ben ei hun mae hen hadau gwenwynig yn cael lle i wreiddio a thyfu yn fwy-fwy o hyd yn ei gymeriad a'i fywyd, a gwaith anhawdd iawn yw diwreiddio amryw o honynt o galonau a meddyliau llawer meudwy. Trwy undeb, hefyd, y galluogir dyn i ddyrchafu a moesoli ei gymeriad i fesur pell, a thrwy hyn i estyn esiampl a chyngor i ereill

ddilynant ei gamrau. Gwir yw fod llawer o eithriadau i hyn oll, ond ar yr un pryd, credwn fod dyled lawer ar y ddynoliaeth i undebau yn hyn. Gwel y person ei hun yn nrych rhywun arall, a chynorthwyir ef, felly, i rodio yn well, neu ynte roddi esiampl i ereill. Mae gan yr aelod liaws o fanteision ar bob llaw i lesoli ei frodyr a'i gyfeillion mewn llawer ystyr. Y mae gan aelod o undeb neu gymdeithas gyfleusderau dirif i godi yr hen wlad a'i thrigolion i raddfa uwch yn barhaus. Fel aelod ymroddgar, gonest a chydwybodol o gymdeithas, gall unrhyw berson, trwy ddiwydrwydd, dyfalbarhad ac uniondeb hau hadau rhinwedd a daioni yn nghalonau lliaws o'i gydwladwyr; a'i ddylanwad eanga o hyd pa fwyaf yr ymrodda ati gyda sel a chydwybod lân.

(*I'w barhau.*)

DYGWYDDIADAU NODEDIG.

III.

1188.—Archesgob Baldwin ar ei daith drwy Gymru. Gerallt Gymro gydag ef.—YR YMOFYNYDD 1902 t. 246.

1483.—Ganwyd William Tyndall, cyfeithydd y Beibl Saesneg, gerllaw Wotton-under-Edge, ar fryniau'r Cotswold, lle mae colofn-goffa iddo gerllaw man ei enedigaeth.

1542.—Tua'r flwyddyn hon y llosgwyd Rawlins White, y pysgotwr, yn fyw, yn Nghaerdydd ei dref enedigol, ac ychydig amser cyn hyny fe losgwyd Thomas Capper hefyd yn Nghaerdydd. Dywed Mr. Ifano Jones fod y Capperiaid yn Nghaerdydd yn 1492, a'u bod yno heddyw.—*Baptist Assembly Handbook, 1912.*

1553.—Ganwyd John Whitgift yn Great Grimsby. Olynydd Grindall fel Archesgob Caergaint 1583. Dywedir iddo lanw y swydd gydag "orthodox firmness," a chyfrifid ef gan Babydd a Phuritan yn erlidiwr selog. Rhyw fod cymysg iawn yw dyn. Whitgift fu'n achos llofruddiaeth John Penry, a Whitgift hefyd fu yn nawdd i'r Dr. William Morgan pan yn cyfeithu'r Beibl i'r Gymraeg. Bu farw 1603.

1570.—Ganwyd William Wroth, rheithor Llanfaches, ger Chepstow. Cyfrifir ef fel tad Ymneillduaeth yn Nghymru. Bu farw 1642.

1604.—Ganwyd William Erbury, a throwyd ef allan o eglwys Fair, Caerdydd, tua'r un amser ag y trowyd Wroth o Lanfaches. Ei bechod mawr oedd gwrthod darllen Llyfr y Chwareuon o'r pwlpud ar y Sul. Dysgybl iddo oedd yr enwog Walter Cradock, a Morgan Llwyd (1619–1659), awdwr Llyfr y Tri Aderyn.

1606.—Ganwyd W. Cradock. Cafodd ei fedydd tân pan yn gurad dan Erbury. Trodd allan yn genhadwr llwyddianus iawn, a gelwid ei ganlynwyr yn fynych, nid yn Annibynwyr neu Bresbyteriaid, ond Cradociaid. Pan dorodd y Rhyfel Cartrefol allan, gorfu i Cradock ffoi i Lunden — dinas noddfa Diwygwyr yr oes. Bu farw Rhagfyr 24, 1659. — *Diwygwyr Cymru, t. 132.*

1616.—Ganwyd Dr. John Owen. Un o ysgolheigion penaf ei oes. Ystyrir iddo wneud cymaint i ffurfio egwyddorion yr Annibynwyr ag a

wnaeth Baxter i eiddo'r Presbyteriaid. Cafodd gynyg esgobaeth pe cydymffurfiai; ond gwrthodod. Dywedir mai ganddo ef y cafodd Calamy fanylion Cymry'r Ddwyfil. Cyhoeddodd tua 70 o lyfrau. Bu farw 1683.

1618.—Ganwyd Christopher Love yn Nghaerdydd. Wedi dyfod dan ddylanwad Erbury, aeth i Rydychen. Gwrthodod urdd offeiriad. Dienyddwyd ef ar Tower Hill, Llunden, Awst 23ain, 1651. Ysgrifenodd lawer, oll yn Saesneg, er y medrai Gymraeg. Mae rhai o'r Loves yn dal cysylltiad heddyw a'r Eglwys Undodaidd, West Grove, Caerdydd.

1644.—Yn y Bell Alley, yn Llunden, dywedodd pregethwr "Er fod Crist yn brophwyd ac yn gallu cyflawni gwyrthiau, eto nid Duw oedd; a gerllaw Coleman Street yr oedd cymdeithas o bobl dan ddylanwad rhyw Gymro yn gwadu Duwdod Crist.—*Bonet Maury, t. 197.*

1669.—Dywedir mai Lord Falkland oedd y cyntaf o Sosiniaid y wlad hon. Yr oedd yn ddarllenwr o weithiau y Fratres Poloni, Sosiniaid Poland.

1672.—John Bunyan o'r carchar yn cyhoeddi llyfr i bleidio cymundeb cymysg, a thrwy hyny yn achosi terfysg yn eglwysi'r Bedyddwyr.

1719.—Rhai o eglwysi anghydffurfiol Gorllewin Lloegr mewn cyflwr aflonydd am fod rhai o'r gweinidogion wedi cofleidio syniadau Ariaidd.

1745.—Llyfr Dr. Watts gyda'i syniadau olaf ar y Drindod yn cael ei gyhoeddi. Rhwystrwyd ei gylchrediad, ond daeth copi i law'r Parch. Gabriel Watts, yr hwn a gyhoeddodd ail argraffiad yn 1802. Mae'n amlwg fod Dr. Watts wedi ymwrthod a'r Drindod yn ei flynyddoedd diweddaf. Yn y llyfr hwn ceir hefyd ei "Solemn Address to the Deity."

1783.—Dr. Richard Price yn derbyn LL.D. o Goleg Yale. Ganwyd y Dr. yn Ty'nton, gerllaw Penbont-ar-Ogwr 1723, bu farw Mawrth 19, 1791. Mewn llyfr a gyhoeddwyd llynedd dan yr enw "Historical Sketches of Glamorgan" y mae bywgraffiad dyddorol o Dr. Price.

ADNODAU'R "GAIR."

Diolchaf yn wresog i "J.S.W." am ei nodyn dyddorol yn y Rhifyn diweddaf, ac am ei ddyfyniadau o bregeth Dr. Drummond. Wrth ddarllen yr olaf, enynasant ynof awydd cryf am weled yr oll o'r bregeth. Rhaid i mi gyfaddef nad oes ynof gariad at un dull neillduol o esbonio'r adnodau uchod, ond fel ymchwiliwr am y gwirionedd hoffwn yn fawr allu dod o hyd i esboniad boddhaol arnynt, yr hyn (i mi) nad ydoedd yr hen ddull Undodaidd. Ar ol darllen nodyn "J.S.W.," aethum yn nghyd a darllen llyfr godidog y diweddar Barch. R. A. Armstrong ar "Y Drindod a'r Ymgnawdoliad." Yr oeddwn wedi ei ddarllen amryw weithiau flynyddau yn ol, pan ddaeth allan gyntaf, a diau iddo ddylanwadu arnaf yn fawr, a chredaf mai efe (yn rhanol) a'm tywysodd i'r llinell o feddwl geisiais osod allan yn yr "Ymson" y cyfeiria eich gohebydd ati. Efallai y bydd yr hyn a ganlyn allan o hono yn dderbyniol gan rai o'ch darllenwyr. Ni roddaf gyfieithad, ond sylwedd rhan o un o'r penodau. Tuag amser Heraclitus (oddeutu 500 C.C.) daeth y syniad i fewn

i athroniaeth Groeg nad Duw ei hun oedd wedi creu a chynal y byd, ond Meddwl Duw, neu Reswm Duw, yr hwn oedd yn deilliaw o Dduw, neu yn Fab Duw. Tuag amser Iesu, neu ychydig yn flaenorol i hyny, daeth y dull Groegaidd hwn o feddwl i gyfferddiad â'r dull Iuddewig o feddwl am "Ddoethineb" fel math o fod haner-personol. yr hwn a drigai gyda Duw, ac a oleuai feddyliau dynion. Erbyn dechreu'r cyfnod Cristionogol yr oedd y syniad yn un cyffredin yn mhlith y Groegiaid a'r Iuddewon fod *bod* yn nes i ddynion na Duw, ar yr hwn yr oedd y gair "Logos" yn enw addas. Yr oedd awdwr y bedwerydd Efengyl wedi cael ei lwyr feddianu gan y syniad hwn. Ond nid athronydd yn unig oedd y dyn hwn. Yr oedd wedi cael ei feddianu hefyd gan ymdeimlad angherddol o gariad dwyfol. A gwyddai fod hwn wedi dod i'w feddiant trwy Iesu. Wrth feddwl am hyn oll—am syniad y "Logos" fel ei dysgid yn athroniaeth Roegaidd ei ddydd, ac am bersonoliaeth Iesu—llewyrchodd ar ei feddwl y meddylddrych gogoneddus hwn: fod y Meddwl dwyfol, oedd wedi bod erioed yn deilliaw o Dduw, ac yn wanaidd yn goleuo dynion, ar adeg neillduol, yn nghyflawnder amser, wedi ymddangos yn gyflawn yn y dyn Iesu, wedi pabellu yn ei ddaerol gnawd, ac wedi rhoi iddo ddoethineb a sancteiddrwydd Duw, fel o'r llusern hon y goleuid ysprydoedd pob dyn; ac yna, wedi iddo siarad ynddo ef, y dyn Iesu, ei fod wedi dychwelyd i fynwes Duw. Wedi ei gyffroi gan y weledigaeth hon, efe (sef, awdwr yr Efengyl) a eisteddodd i lawr, ac a ysgrifenodd — "Yn y dechreuad yr oedd y Meddwl, a'r Meddwl oedd gyda Duw, a Duw oedd y Meddwl," ac yn y blaen. Dyna sylwedd yr hyn ysgrifenwyd gan Armstrong ar y pwnc hwn. Ni fyddai'r un gwahaniaeth yn y meddwl, fel yr ymddengys i mi, pe defnyddid y gair Crist yn lle'r gair meddwl yn yr adnodau dan sylw. Fel hanes o fywyd Iesu, efallai (a thebyg) na ellir gosod llawer o bwys ar y bedwerydd Efengyl. Y mae pellder mawr rhwng Iesu'r tair Efengyl gyntaf a Iesu'r pedwerydd Efengyl. Y mae pob un o honynt yn werthfawr—y tair gyntaf, am eu bod yn ein dwyn yn agos at Iesu fel yr oedd mewn gwirionedd; y bedwerydd, am ei bod yn ymgais ryfeddol o lwyddianus i ddarlunio'r wir berthynas rhwng dyn yn ei fan goreu â Duw. Gobeithiaf y ceir rhagor o ymdrafodaeth ar y pwnc hwn, naill ai gan "J.S.W." neu rywrai ereill.

MYFYRIWR.

GWRONIAID Y MANNAU CUDD.

(PARHAD).

II.

Adnabum i fachgen o löwr
Rhwng bryniau dihalog fy ngwlad,
Y diwrnod cyntaf disgynnodd i'r gwaith
Lladdodd y "ddamwain" ei dad.

Yr hynaf un yn y teulu,
A'r unig un yn y gwaith;
Dilynodd yr arch o dan fraich ei fam
I niwloedd y fynwent laith.

Cwrddodd ar ol yr adfyd
A geneth anwylaf y wlad,
Ymglymodd ei galon yntau yn dynn
Am galon yr eneth fad.
Sonient am ddydd y priodi,
Sonient am fodrwy aur,
Sonient am gariad yn troi y bwth
Distadlaf yn gartref claer.

"Ond rhaid i mi aros blynyddau
I fagu y plant," ebe'r llanc,—
Cerddodd y gofid i'w galon friw
I'w chwerwi hyd awr ei dranc.
Gwelai y gwanwyn yn dyfod
Ag adar y nef yn gytun,
Codent eu nhythod yng nghoed yr allt
Yn ymyl anedd-dy ei fun.

Soniai y blodau am gariad,
Soniai'r cornentydd am serch,
Soniai'r cyfoedion am gartref clyd,
Am fodrwy, am fwth, ac am ferch,
Ac yntau o hyd yn ymdrechu
Dros chwaer a brawd, a thros fam,
A'i gariad yn mynd ym mreuddwydion y nos
I gartref yr eneth ddi-nam.

Gwelodd hi'n blino aros,
Gwelodd hi'n mynd i'r Llan,
Ac yntau'n gweithio'n y "talcen" du
Dan fryniau'r wlad yn ei ran.
Un dydd daeth y danchwa heibio,
Ac angau'n ei phlygion yn byw,
Tarawyd y glowr i'r "talcen" du
I gwmni'r breuddwydion gwyw.

Claddwyd ef dan y dywarchen
Heb air am ei aberth a'i groes,
Claddwyd ef dan y glaswellt îr
Heb air am ei farwol loes;
Pwy omedd i minnau enwi
Y bachgen a'r welw rudd,—
Pwy omedd im' osod ei enw i lawr
Gydag arwyr y mannau cudd?

III.

Mewn bwthyn ar fryniau Cymru
Gwelais freuddwydio per,
A geneth ieuanc yn son am serch
Allan dan oleu'r ser.

Gweithiai yn galed a chyson
I weini ar fam oedd yn glaf,
'Roedd hirnos afiechyd o fewn y bwth
Yn nhesni hir ddyddiau'r haf.

Un hwyr pan oedd adar y goedwig
Yn paru dan lwyni Mai,
Daeth Rhywun heibio a'i lais yn bêr
Fel islais di-flino'r trai.
Soniai am serch a modrwy,
Soniai am allor a chryd,
Ond trodd yr eneth o oedfa serch
I weld fod ei mam yn glyd.

Aeth dyddiau'r breuddwydio heibio,
Daeth eira i'r euraidd wallt,
Diystyr oedd trydar yr adar bach
Ar ddechreu'r haf yn yr allt.
Diflannodd rhosynau ei dwyrudd
Wrth fyw yn gydymaith i Boen,
Diflannodd y breuddwyd am fodrwy a chryd
Wrth erchwyn y gwely di-hoen.

Ffyddlon fu hi hyd y terfyn
Heb achwyn na blino chwaith,
Cuddiodd ei gofid wrth weini'n fwyn,
Cuddiodd ei phoenus graith.
Mewn bwthyn ei hunan o'r diwedd
Heb gyfaill na chât yn y wlad,
Daeth henaint i rychu y gruddiau heirdd
Fu unwaith dan rosyn mad.

Breuddwydiai ar brydiau am allor,
Am fodrwy, am faban, am gryd,
A chofiai am Rhywun yn dod gyda'r nos
I gynnyg ei galon i gyd.
Ni wybu'r byd am ei haberth,
Ni wybu neb am ei loes,
Ni wybu cyfaill na char erioed
Drymed fu pwys ei chroes.

Ni wybu ffrind beth fu'n gwywo
Rhosynau di-ddrain ei grudd,—
Pwy omedd im' osod ei henw i lawr
Gydag arwyr y mannau cudd?

(*I'w barhau*).

Y TEGELL A'R TEBOT.

Dywedir i'r tê gael ei ddwyn i'r wlad hon gyntaf tua'r flwyddyn 1660. Sonia Samuel Pepys iddo gael ei gwpanaid cyntaf yn mis Medi y flwyddyn hono. Doniol iawn yw hanes y tê, a chymysglyd iawn yw'r caritor y mae wedi gael o'r pryd hwnw hyd heddyw—rhai yn ei ganmol i'r cymylau, a rhai yn ei ddiarebu'n dost. Tebyg iddo gael cam lawer gwaith am na wyddid beth i wneuthur o hono. Dywedai un dyn pwysig cyn hir wedi iddo gael ei ddwyn i'r wlad hon, ei fod yn dda fel meddyginiaeth rhag anwyd——yn debyg i'r glo werthid gan y Carw Coch gynt—yn dda rhag y dyfrglwyf, rhag y clefri poeth, a rhag pob math o heintiau. O'r tu arall, ni wel rhai ond y drwg yn nglyn ag ef. Pan ddaw'r merched a'r gwragedd yn nghyd at y bwrdd tê, fe ddywedir na fyddis yn hir lawer pryd cyn clywed llais yn codi uwch llais, yn debyg fel y dywedir fod y gwrywod o dan ddylanwad yr *alcohol*; ac nid yw yn anhebyg na fydd tafod athrod ac enllib ar waith, a chymeriadau goreu'r gymydogaeth yn myn'd dan warth. Fe ddywed y bardd Young ei fod yn teimlo math o ddychryn wrth feddwl am ganlyniadau echryslawn y ffrydiau cochion sy'n rhedeg allan o big y têbot. Wrth gwrs, eithafol ac eithriadol iawn yw hyn oll erbyn heddyw.

"Crochan y Felldith" y galwai Edward Richard, Ystradmeurig, y têbot—

"Crochan y Felldith a'r bara gwan gwenith,
A yrodd bob bendith a llefrith i'r llwyn."

Ystyriai'r hen fardd Sion Siencyn ef yn ddim gwell na "gloywon sucan surllyd." Un arall a'i desgrifiai fel llwyr ddinystr ar bob syniad o gynildeb, melldith ar bob daioni teuluaidd, a ffynonell sicr seguryd a diffrwythder.

Cynil iawn am flynyddoedd fuwyd wrth ei ddwyn i arferiad. Yr oedd yn gostus ar y cyntaf, ac ni fynai rhai i'w cymydogion wybod eu bod mor wastraffus, a llawer dyfais ddefnyddid i gadw'r peth yn ddirgel. Ebe mam wrth ei phlentyn—"Dos, a dywed wrth dy dad am ddod i'r tŷ. Paid son am y tê." Fe ddeallai'r bach yr ystyr, ond bu mewn penbleth am beth amser sut i roi ar ddeall i'w dad heb i neb arall wybod; a dyma fel y daeth allan, "Nhad, dewch i'r tŷ, mae'r tegil yn canu." Llawer scil ddefnyddid i gadw'r peth yn ddirgel. Trefnai rhai fath o ddror yn y bwrdd digon mawr i yru'r *tray*, a'r llestri, a'r têbot i gyd o'r golwg ar unwaith os clywid swn traed rhywun yn nesu at y tŷ.

O garedigrwydd, yn fynych, fe gymeradwyid y tê i'r claf; ond doniol, fwy nag unwaith, fu'r canlyniad. Edrydd y poet Southey am un enghraifft—Berwyd y pwys tê, taflwyd y dwfr i ffwrdd, a dygwyd i dail ar blât glân i'r claf, gyda halen a 'menyn! Nid rhyfedd i'r claf ddywedyd na hidiai efe ddim pe na welai ddalen o dê byth drachefn. Nis gallai efe ddeall beth oedd dynion yn gael i ganmol cymaint arno.

Wedi'r cwbl y mae'r tê yn boblogaidd, yn ormod felly gyda rhai teuluoedd. Beth ddywedwch chwi am gwpanaid o dê yn y boreu cyn codi o'r gwely, cwpanaid neu ddau i frecwast—o, ie, tê eto i giniaw, a thê i dê, a thê i swper! Y mae'n bosibl cael gormod weithiau o beth da. Nis gall fod llawer o niwed mewn tê unwaith y dydd, ond iddo beidio bod yn rhy gryf. O, fel yr hoffai'r poet Cowper ei gwpanaid tê—

"Y cwpan sy'n sirioli dyn
Heb fod meddwdod wrtho 'nglyn."

Chwi gofiwch am yr hen Ddoctor Johnson, sarug wrth natur, fel yr anerchodd Miss Reynolds—

" For hear, alas ! the dreadful truth,
Nor hear it with a frown,
Thou can'st not make the tea so fast
As I can gulp it down."

Yr oedd Iolo Morganwg hefyd yn hoff iawn o ffrwyth dail yr India, a phan fyddai yn lletya gyda chyfeillion oddi cartref, gofelid dodi pob peth wrth law iddo gael helpu ei hunan. Yn ei henaint, nid oedd yn gallu myned i'r gwely oherwydd y fogfa, ond eisteddai drwy'r nôs wrth y tân, gyda'r defnyddiau at y tê i gyd yn gyfleus. A mynych y clywyd yr hen wraig, Mrs. Williams, Penyrheolgerrig, yn dywedyd, " Fe yfws 'y nhecil i'n sych lowar gwaith."

Bardd arall oedd yn gaethwas i flys y tê oedd y Parch. David Davis, Castell Hywel. Beth ydy'r mater ar y beirdd ? Ymddengys fod yn rhaid iddynt gael rhyw yfwch o hyd—rhan fwyaf o honynt. Y mae'r tê, wrth gwrs, yn fwy diniwed na'r *alcohol*. Ond paham y fath flys at y naill neu'r llall ? Ebe'r hen Ddafis, un tro, wedi iddo basio ei bedwar ugain, wrth y forwyn, " Sawl un ydy hona, los ? " " Y mae hona yn bedair-ar-bymtheg, meistr," " Pedair-ar-bymtheg, wel, dyro un fach eto ! "

Nid drwg stori y Parch. Jonah Morgan, Cwmbach. Clywsom ef mewn cwrdd tê yn nghapel yr Undodiaid, yn amser y Parch. E. W. Lloyd, yn dywedyd fod rhinwedd mawr yn perthyn i'r tê. Yr oedd y dwfr ei hunan a rhyw duedd ynddo i beri i ddynion ymranu ac ymryson. " Ond," ebe fe, " dodwch chwi dipyn o dê yn y dwfr, a daw pob peth i'w le ar unwaith. Fe anghofia pawb ei enwadaeth. Bydd yr Anibynwr a'r Bedyddiwr, yr Undodwr a'r Trindodwr, yn trigo yn nghyd fel brodyr. Am unwaith, o leiaf, pe ond am ddwy awr, fe welir eu bod yn deall ystyr swynol y geiriau—"Cariad Brawdol."

R. J. J.

"YR YMOFYNYDD."

Mr. Gol.—Credaf ei bod yn ddymunol i achub yr hyspysiad a ganlyn rhag myned i golli. Fe wel y darllenydd mai Anerchiad y Parch. D. L. Evans yw wrth ymgymeryd a'r olygiaeth. Cyhoeddwyd eiddo'r Parch. J. E. Jones, yn YMOFYNYDD 1907.—T. C. U.

At Undodiaid Cymru, a phawb eraill sydd yn caru Rhydd-Ymofyniad Crefyddol.

Anwyl Gyfeillion,—Yn gymmaint ag i fod dymuniad cyffredin yn ein plith am osod " YR YMOFYNYDD," unwaith drachefn ar ei draed, ac i gynygiad i'r perwyl gael cymeradwyaeth gan y rhan fwyaf o'r Gweinidogion ac eraill oeddynt bresenol yn y " Pleasant Bush," ger Gellionen, ar y pedwaredd o'r mis hwn. Nid annoeth, cyn dechreu gorchwyl mor bwysig, fyddai gosod i lawr ryw drefn i'r dyben i'w gario yn y blaen, ac hefyd i ddeall ein gilydd. Am hyny, gan eich bod, lawer o honoch, wedi ceisio genyf fi i arolygu'r Wasg, cymeraf genad, ar ol dwys ystyriaeth, i gynnyg i'ch sylw y canlynol fel yr ammodau ar ba rai y gallaf gydsynio

a'ch cais, a thrwy gadw at ba rai y mae "YR YMOFYNYDD" yn fwy tebyg i lwyddo.

1. I fod i'r *Printer* i gael ei dalu am ei waith bob mis, ac i'r dyben hyny i fod Trysorydd i gael ei appwyntio, a *Fund* neu Drysorfa i gael ei chreu, nid yn unig i alluogi y Trysorydd i fod yn attebol i'r argraffydd, ond hefyd i ddanfon iddo ei arian pan fyddont ddyledus.

2. I fod o leiaf i bedair-punt-ar-hugain o'r *Fund* i gael eu casglu *cyn dechreu ar y gwaith*, a hyny yn annibynol hollol ar daliadau am "YR YMOFYNYDD." Dyben yr arian fydd talu am argraffu, &c., "YR YMOFYNYDD," dros dri mis, er mwyn ei osod yn deg ar ei draed.

3. Fod pris "YR YMOFYNYDD," fel o'r blaen, i fod yn dair ceiniog y Rhifyn, ac fod i bawb dalu am dano wrth ei dderbyn. Hefyd, fod swllt y bunt i gael ei roddi i'r dosparthwyr am eu trafferth.

4. Fod i'r dosparthwyr i ddanfon eu harian i'r Trysorydd un waith yn y mis, ac i'r Trysorydd osod ei gyfrifon bob hanner blwyddyn o flaen y gweinidogion ac eraill a fyddant yn bresenol yn y cwrdd blynyddol a'r un chwarterol Nadolig.

Yn olaf, fod y golled i gael ei gwneyd i fyny, os bydd "YR YMOFYNYDD" mewn dyled ar ddiwedd yr hanner blwyddyn, trwy gasgliadau yn ein Heglwysi, a thanysgrifiadau gan y sawl fyddo yn dewis helpu; ond os bydd arian dros ben ar ddiwedd pob hanner blwyddyn, fod yr arian hyny i gael eu gadael yn nhrysorfa "YR YMOFYNYDD."

Os bydd i'r ammodau hyn gael eich cymmeradwyaeth, dymunaf arnoch i ddangos hyny, Weinidogion a phawb, trwy ddanfon i mi eich enwau yn ddioed. Os gwelaf fod yr ammodau yn cael cymmeradwyaeth cyffredinol, ac fod ymdrech yn cael ei wneyd i greu Trysorfa, yr wyf yn meddwl y gallaf addaw, trwy gydweithrediad fy nghyfeillion, yr ymddangosa y Rhifyn Cyntaf ar ddechreu y flwyddyn nesaf.

Dymunir arnoch hefyd ddanfon i mi enwau y cyfryw yn mhob ardal ag ydynt yn foddlawn helpu trwy gymeryd arnynt y gorchwyl o ddosparthu.

Ydwyf, yr eiddoch, &c.,

D. L. EVANS,

Caerfyrddin, Gorph. 7, 1867.

PRIODAS.

CHWEFROR 3.——Yn Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, Mr. Albert Prunner, a Miss Rachel Evans, y ddau o Ynyslwyd Street. Gwasanaethwyd gan y Parch. J. Glynne Davies, yn cael ei gynorthwyo gan R. J. J.

"Grant them the joy which brightens earthly sorrow,
Grant them the peace which calms all earthly strife,
Add to life's day the glorious unknown morrow,
That dawns upon eternal love and life."

MARWGOFION.

MEHEFIN 2, 1912, yn sydyn ac anisgwyliadwy, Esther Jones, Glynyrynys, Talgareg, yn 67 oed. Claddwyd y Mercher canlynol yn Bwlchyfadfa, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Ychydig o berthynasau adawodd Esther i alaru ar ei hol, ond mae yna nifer o gyfeillion a chymydogion yn teimlo'n chwithig yn herwydd ei cholli. Llwyddodd drwy ei bywyd tawel a gonest i enill parch pawb o'i chydnabod. Yn ei dyddiau goreu bu'n aelod ffyddlawn yn Bwlchyfadfa, a deallwn fod ei thad, yn ei ddydd, yn un o golofnau'r achos yn y lle. "Dewisodd y rhan dda yr hon ni ddygir oddiarni."

IONAWR 28, yn 13 mis oed, David, mab bychan Mr. a Mrs. Martin Evans, Tancoedmawr, Llandyssul. Claddwyd yn Pantdefaid y dydd Gwener dilynol, a'r Parch. Arthur Thomas yn gwasanaethu. "Gadewch i blant bychain ddyfod attaf fi."

IONAWR 28, yn 70 oed, Anne Jones, Rose Hill, ger Pantdefaid. Yr oedd yr ymadawedig yn chwaer i Mr. John Thomas, Dentist, Llandyssul, a'r diweddar Mr. D. Thomas, Cloth Hall, a threuliodd ei hoes faith yn y gymydogaeth lle y bu farw, yn fawr ei pharch gan bawb a'i hadwaenai. Bu'n fenyw ddiwyd, weithgar, a darbodus drwy'r blynyddoedd, ac yn ei chylch ei hun mor barod a neb i wneyd cymwynas ac i roddi help. Gwelir ei heisiau gan yr ardalwyr am amser hir, heblaw ei pherthynasau, ac yn arbenig yr ŵyr bach fagodd gyda chymaint gofal, ond yr hwn sydd yn rhy ieuanc i sylweddoli ei golled. Y dydd Mercher dilynol, gosodwyd ei rhan farwol yn mynwent Pantdefaid, a gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas.

IONAWR 29, yn 5 wythnos oed, Tom Theodore, baban bychan Mr. a Mrs. D. Channing Thomas, New Shop, Llandyssul. Y dydd Sadwrn dilynol claddwyd ei babell fechan yn mynwent eglwys Llanllwni. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Arthur Thomas, ac yn yr eglwys gan ficer y plwyf. "Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd."

IONAWR 30, wedi gwendid a llesgedd hir, yn 89 oed, Mary Davies, Brynview, ger Cwrtnewydd. Claddwyd yn Nghladdfa'r Bedyddwyr yn Brynhafod, gerllaw y fan y treuliasai y rhan fwyaf a'r rhan oreu o'i hoes, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca.

CHWEFROR 8, Mary, priod James Davies, Frondes (gynt o Celynen), Pontshaen, Llandyssul, yn 70 oed. Cafodd yr ymadawedig gystudd rhyfeddol o faith, ac ar adegau dioddefodd boenau dirfawr. Bu'n gorwedd yn ei gwely, bron yn ddidor, am un-flynedd-ar-hugain, heb allu gwneud ond y nesaf peth i ddim drosti ei hun, ac er's rhai blynyddoedd yr oedd yn hollol ddall. Bu ei merch yn dyner iawn o honi, a gweinodd arni'n ffyddlawn a dirwgnach, tra y dangosodd hithau amynedd rhagorol. Mae priod, plant a pherthynasau eraill yn wylo ei cholli. Claddwyd y Mercher canlynol yn Llwynrhydowen, a gwasanaethwyd gan E. O. Jenkins. "Aethum yn fud ac nid agorais fy ngenau."

CHWEFROR 12, yn nhŷ ei brawd, Mr. Evan Morgan, Winfield Avenue, Pontypridd, Annie, merch y diweddar Thomas ac Alice Morgan, o Aberdar, a nith i'r Proff. Richard Howells, a Mr. Edward Howells, Maesgwyn. Bu'r ymadawedig yn aelod yn Highland Place, Aberdar, am flynyddau. Claddwyd yn Cemetery Glyntaf dydd Sadwrn.

CHWEFROR 18, yn 25 mlwydd oed, John, mab Mr. a Mrs. Thomas Thomas, Cross Inn Farm, Llanfihangel-ar-arth. Yr oedd yr ymadawedig yn fachgen ieuanc addawol iawn, cyflym ei ddeall, a mawr ei

barch gan ei holl gydnabod. Ychydig flynyddoedd yn ol cyfarfu a damwain, a bu yn foddion i amharu ei iechyd, a chafodd gystudd hir. Cydymdeimlir yn fawr a'i rieni, ei chwiorydd, a'i frawd yn eu profedigaeth chwerw. Y dydd Llun dilynol, yn nghanol amlygiadau o alar cynhebrwng lliosog iawn gosodwyd yr hyn oedd farwol o hono i orwedd yn mynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan Ficer Llanfihangel-ar-arth, a'r Parch. E. O. Jenkins, Llwyn. Nodded y nef fyddo dros y teulu galarus yn eu cystudd.

MANION AC HANESION.

CAPELYBRYN—Nos Iau, Rhagfyr 26ain, o dan lywyddiaeth Mr. T. O. Williams, Gwarnant, traddododd y Dr. Gomer Lewis ei Ddarlith boblogaidd ar "Ogoniant Amrywiaeth" i glywedigaeth cynulleidfa luosog. Fel ei arfer, yr oedd y darlithydd hyawdl yn hynod o hapus yn ei gymhlethiad o adeiladaeth a difyrwch. Cymerwyd rhan yn y diolchiadau gan y Parch. D. Evans, Cribyn; y Parch. E. Glyn Edwards (B); y Parch. J. Davies, a'r Dr. D. J. Davies.

CRIBYN.—Nos Sul, Chwefror yr 2il, ar derfyn y gwasanaeth, anrhegwyd Miss Jones, Tanlan, ag awrlais a swm o arian, fel cydnabyddiaeth am ei gwasanaeth fel organyddes am yn agos i ugain mlynedd. Cyflwynwyd yr anrhegion gan Mrs. Evans, Brighton Cottage, ac fel y canlyn y canodd wrth wneyd hyny—

"'Rwy'n hen, ac mae'r hen yn gwywo
'mhob oes,
A'r ieuanc yn codi i gym'ryd y groes;
Daw hydref a gauaf i gwrdd a phob
un,
Yn ngwanwyn ein bywyd a'n haf
gwnawn ein llun.

Peth prudd a digalon yw canu dirân,
Yn lle bod yr enaid gan fawl fel ar
dân;
Mae'r mawl, er yn raddol, yn codi i'r
lan
Dan fysedd Anne ddoniol telynol
Tanlan.

Yn chwareu yr *organ* bu Anne er ei
chlod,
Yn chwareu cyfeiliant i ganwyr o nod;
Rhown awrlais o wobr i Anne am
wneyd hyn,
Na stopied yr awrlais na Anne hyd y
glyn.

Mae'r anthem a'r salm-dôn yn
chwyddo i'r lan,
Mae'r cor yn wefreiddiol dan fysedd
Tanlan;
Na fyddwn anianol, cyfeiriwn ein
llef
O fawl ac anrhydedd i frenin y nef.

CEFNCOED.—— Hwyrddydd cyn Calan cynhaliwyd Gwyl Dê flynyddol yn Hen-Dy-Cwrdd, ac a barnu yn ol gwedd gwynebau yr ugeiniau cyfeillion a ddaethant at y byrddau, gwledd odidog ydoedd hefyd. Yn yr hwyr cafwyd Cyfarfod Adloniadol a Chystadleuol, dan lywyddiaeth Mr. John Simons, a beirniadwyd gan Mr. John Lewis (cerddoriaeth), a'r Gweinidog (amrywiaeth). Cyfarfod difyrus ac hapus oedd hwn hefyd. Prydnawn dydd Sul canlynol, anrhegwyd nifer fawr o blant yr Ysgol Sul, am eu ffyddlondeb ar hyd y flwyddyn ddiweddaf.——Nos Iau, y 13eg o Chwefror oedd noson ddedwydd i aelodau y *Sewing Class*, pryd y cawsant eu *Social Tea*. Daeth nifer luosog yn nghyd, a llwyddianus oedd y wledd, yn mhob ystyr. Wedi gwneud cyfiawnder a'r danteithion, treuliwyd y gweddill o'r hwyr mewn

gwahanol chwareuaethau.

ABERYSTWYTH.--Dydd Sul, Chwefror y 23ain, talwyd ymweliad a'r gynulleidfa hon gan ei hysgrifenydd cyntaf, sef y Parch. J. Park Davies, B A., B.D., Pontypridd, a chafodd groesaw calonog gan ei hen gyfeillion yma, yn ogystal a chan bawb perthynol i'r gynulleidfa. Fel cynrychiolydd y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor, yr ymwelodd Mr. Davies a ni y tro hwn, a daeth i'r diben o gael gweled a ellid gwneyd rhywbeth i hyrwyddo y mudiad Undodaidd yn y lle, a'i wneyd yn fwy llewyrchus. Yn y boreu, traddododd bregeth fer a phwrpasol iawn i'r plant a'r bobl ieuainc, yn fwyaf neilltuol, ac yn yr hwyr, cafwyd ganddo anerchiad grymus a symbyliadol ar dyfiant dyn yn gymdeithasol, yn feddyliol ac yn foesol a chrefyddol, o'r îs i'r uwch, ac o'r anmherffaith tuag at y perffaith, wedi ei sylfaenu ar Exodus 3 : 17. Ar ol gwasanaeth y boreu cynhaliwyd cynhadledd fer ar ragolygon yr achos yn Aberystwyth. Siaradwyd gan Mr. Davies, ac amryw aelodau o'r gynulleidfa, a cheisiwyd ganddo drosglwyddo'r penderfyniadau ddaethpwyd iddynt i ysgrifenydd y Gymdeithas Undodaidd a Thramor.

ABERDAR.—Gwasanaethodd y Parch. J. Glynne Davies y tro diweddaf fel gweinidog yr Hen-Dy-Cwrdd, dydd Sul, Chwefror 23ain. Ceir manylion eraill yn ddiweddarach.

Y LLYFR EMYNAU. — Yr ydym eisioes wedi derbyn rhestrau gwerthfawr o dônau oddiwrth amryw eglwysi a chyfeillion, y rhai gredwn, fydd o werth mawr er dwyn allan y Llyfr Emynau newydd. Hyderwn am eraill nad ydynt eto wedi danfon eu taflenau i mewn y gwnant hyny yn ddioed. Diau y ceir ymdrafodaeth bellach ar y pwnc hwn yn nghyfarfod nesaf y gymdeithas gynhelir yn Llandyssul, Ebrill 1 a 2.

Y "CHRISTIAN LIFE."—Sylwn fod rhifyn coffadwriaethol o'r uchod i gael ei ddwyn allan tua'r Sulgwyn, ac argoela fod yn un dyddorol dros ben. Bydd o ddyddordeb arbenig i bob Undodwr, ac anogwn bawb i fynu ei weled.

Trysorfa Addysg Myfyrwyr Undodaidd Cymreig.

RHODDION YCHWANEGOL.

Capelycwm—

Mr. John Lloyd, Tynygruguchaf ...	...	0	2 0
Mrs. Thomas, Arfryn ...	...	0	1 0
Mr. Evan Davies, Quarry villa ...	...	0	1 6
Mr. David Richards, Shop ...	...	0	2 6
Mr. David Thomas, 2, Crossway ...	...	0	2 0
Mr. James Thomas, 1,Crossway ...	...	0	1 6
Mr. Dd. Thomas, Tynygrugisaf ...	...	0	2 0

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

LLYWYDD—Y PARCH. E. GWILYM EVANS, B.A., DUKINFIELD.
IS-LYWYDD—Y PARCH. E. O. JENKINS, LLWYNRHYDOWEN.

—CYNHELIR—

Cyfarfodydd ✻ Chwarterol

YR UCHOD, YN

NGHAPEL Y GRAIG, LLANDYSSUL.

Dyddiau Mawrth a Mercher, Ebrill 1 a 2, 1913.

Bydd trefn y Cyfarfodydd fel y canlyn—

Nos Fawrth, am 6.30 o'r gloch.—Gwasanaeth a Dwy Bregeth.
Dydd Mercher, am 9 o'r gloch.—Pwyllgor y Gymdeithas.
,, ,, 10.30.—Gwasanaeth ac un Bregeth.
,, ,, 2.—Gwasanaeth a Dwy Bregeth.
,, ,, 6.—Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Pregethir yn y gwahanol gyfarfodydd gan y Parchn. R. J. JONES, M.A.; GWILYM EVANS, B.A.; SIMON JONES, B.A.; J. PARK DAVIES, B.A., B.D.; E. R. DENNIS; J. CARRARA DAVIES, ac eraill. Cymerir rhan hefyd yn un o'r Cyfarfodydd gan

—CHARLES HAWKSLEY, Ysw., C.E.,—

Llywydd y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor, ac efallai un Cynrychiolydd arall.

Dymuna eglwys y Graig estyn croesaw cynhes i Weinidogion ac eraill i'r cyfarfodydd hyn, a chan mai hwn yw yr achlysur cyntaf i Mr. Hawksley ymweled a Chymru, gobeithio y gwneir ymdrech i fod yn bresenol, yn enwedig gan y Cantorion. Am fanylion pellach ymoheber a gweinidog y lle.

T. ARTHUR THOMAS.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

An intensely human and vividly realistic Novel depicting Life, Thought, and Character in the "Land of Religion and Song."

TO BE PUBLISHED SHORTLY, PRICE 6s.

"DANIEL EVELYN, HERETIC."

A Story which contains less fiction than fact.

By CADVAN RHYS (Author 'The Welsh Jew,' 'Poetlets & Bardlings,' &c.

Orders received by J. D. Lewis, "Yr Ymofynydd" Office, Llandyssul.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

Fruit Trees, Roses and Shrubs.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

Directors:

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord Airedale, Leeds.
Sir Percy Elly Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool
John Alexander Christie, Esq., London.
David Davies, Esq., M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
Arthur T. Keen, Esq., Birmingham.
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London.
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester.
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry.

Dr. BALANCE SHEET, 31st October, 1912. Cr.

LIABILITIES.

	£	s.	d.
Capital paid up	3,989,237	10	0
Reserve Fund	3,890,313	15	0
Current, Deposit and other Accounts (including Balance of Profit and Loss Account)	83,658,199	4	2
Acceptances on account of Customers	8,027,204	14	0
	£99,064,955	3	2

ASSETS.

	£	s.	d.	£	s.	d.
Cash and Bullion in hand and Cash at Bank of England	14,416,342	17	2			
Money at Call and at Short Notice	12,418,446	17	7			
				26,834,789	14	9
Investments				9,230,608	14	10
Bills of Exchange				7,517,632	16	8
				43,583,031	6	3
Advances on Current Accounts, Loans on Security, and other Accounts				45,416,389	1	5
Liabilities of Customers for Acceptances as per Contra				8,027,204	14	0
Bank Premises, at Head Office and Branches				2,038,330	1	6
				£99,064,955	3	2